# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0269(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 15 Mawrth 2005

**At Laura Anne Jones:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ateb i OAQ0269(FM) pan gytunais i roi manylion ichi o’r ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon modur yng ngogledd Cymru.

Er bod gweithgor wedi’u sefydlu yn y De i fynd i’r afael â materion megis darpariaeth oddi ar y ffordd fawr, mae’n debyg nad oes grŵp cyffredinol wedi’i sefydlu yn y Gogledd.

Fodd bynnag, caf ar ddeall bod fforestydd Penmachno, Clocaenog, Dyfi, Myherin, Sweet Lamb a Hafren, sydd wedi’u lleol yng ngogledd a chanolbarth Cymru, yn cynnig rhai o’r lleoliadau ralïo gorau yn y byd ac fe’u defnyddir yn rheolaidd gan Ford, Subaru a Mitsubishi i gynnal profion. Mae llawer o fusnesau neu ystadau preifat hefyd yn cynnig eu tir ar gyfer cynnal profion, gweithgareddau corfforaethol a chystadlaethau, gan gynnwys cystadlaethau Cymreig a Phrydeinig, ac mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn yn caniatáu mynediad i’w meysydd at ddibenion cystadlu.

Byddwch hefyd am nodi bod Tŷ Croes, sef un o’r ddau gylch rasio moduron yng Nghymru, bellach wedi’i gymeradwyo i ehangu ei ddarpariaeth yn Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys dau drac ychwanegol newydd wedi’u cynllunio i fod yn addas ar gyfer ceir Formula 3 a beiciau SuperMoto. Gan ei fod mor agos i Gaergybi, mae tyrfa gref o Wyddelod yn croesi Môr Iwerddon yn rheolaidd ar gyfer cystadlu mewn gweithgareddau cenedlaethol.

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon yn cadarnhau’r gweithgarwch sy’n digwydd yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd o safbwynt chwaraeon modur.